Cefnogi Busnesau yng Ngwynedd
Supporting Businesses in Gwynedd

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Bwletin Gwasanaeth Cefnogi Busnes Gwynedd 23.09.2022

- Mae hwn yn fersiwn Gymraeg o ddau e-bost sydd yn cael eu gyrru allan, mae fersiwn Saesneg yn dilyn – gellir gweld holl fwletinau sydd wedi eu gyrru ar: https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19

- This is the Welsh version of two emails sent out, the English version will follow – all sent bulletins can be accessed on: https://www.gwynedd.llyw.cymru/businesscovid19

# CYMORTH: Cynllun Twf Llywodraeth y DU a manylion cymorth costau ynni i fusnesau

Mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi eu Cynllun Twf heddiw (23 Medi 2022). Mae'r Cynllun yn cynnwys nifer o fesurau i gefnogi busnesau. I ddarllen y cyhoeddiad ewch i:

https://bit.ly/3SpuU3s

Hefyd, yn gynharach yr wythnos hon, mi wnaeth Llywodraeth y DU ryddhau mwy o wybodaeth am y cymorth y bydd busnesau yn ei gael i leihau eu costau ynni, i ddarllen mwy ewch i:

https://bit.ly/3C0y3kR

## GWOBRAU: Gwobrau Dathlu Busnesau Bach FSB 2023

Mae ceisiadau bellach ar agor ar gyfer Gwobrau Dathlu Busnesau Bach 2023 yr FSB, sydd ar agor i bob busnes bach a chanolig. Am fwy o wybodaeth, ac i gystadlu, ewch i:

https://www.fsbawards.co.uk/enter.html

## ARIANNU: Lansio Cynllun Gweithredu Sgiliau Creadigol a Chronfa Sgiliau Creadigol

Mae Llywodraeth Cymru wedi lansio Cynllun Gweithredu Sgiliau Creadigol a Chronfa Sgiliau Creadigol newydd, i helpu i ddatblygu'r dalent bresennol a'r genhedlaeth nesaf o dalent ym meysydd teledu a ffilm, cerddoriaeth a chynnwys digidol. Mae'r Gronfa Sgiliau Creadigol ar agor am geisiadau hyd at 7 Tachwedd 2022, ac mae manylion pellach, gan gynnwys sut i ymgeisio a chanllawiau, ar gael ar:

https://www.cymrugreadigol.cymru/cy/cronfa-sgiliau-creadigol

I ddarllen y datganiad llawn am y cynllun, ewch i:

https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-lansio-cynllun-gweithredu-sgiliau-creadigol-chronfa-sgiliau-creadigol

## ARIANNU: Galwad cyllid arloesi busnesau bach a chanolig – AgorIP

Mae prosiect AgorIP yn gwahodd busnesau bach a chanolig i wneud cais am gymorth a chyllid. Gall AgorIP helpu busnesau bach a chanolig i wireddu potensial eu syniadau, eu cynnyrch neu eu hymchwil, ac mae eu harbenigwyr ar gael i helpu i fynd ag IP (Eiddo Deallusol) i'r farchnad a'i wneud yn llwyddiant

masnachol. Mae ceisiadau ar agor a'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno Cam 2 yw 30 Medi 2022. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://www.agorip.com/cy/bbachgalw2022/

Mae cymorthfeydd Ymholiadau a Chefnogaeth ar gael hyd at 30 Medi 2022 – i archebu lle, anfonwch e-bost at:

agorip@swansea.ac.uk

## YMGYNGHORIAD: Ardoll ymwelwyr dewisol i awdurdodau lleol

Mae Llywodraeth Cymru wedi lansio ymgynghoriad cyhoeddus am gynigion i ddarparu pwerau dewisol i awdurdodau lleol ddefnyddio ardoll ymwelwyr yn eu hardaloedd. Mae mwy o wybodaeth am yr ymgynghoriad hwn, fydd yn edrych ar faterion sy'n ymwneud â dyluniad a gweithredu yr ardoll ymwelwyr, ar gael ar:

https://llyw.cymru/ardoll-ymwelwyr

## HYFFORDDIANT: Cynllun Llysgennad Gwynedd

Lansiwyd Cynllun Llysgennad Gwynedd er mwyn pwysleisio'r pwysigrwydd o ddysgu a deall am dreftadaeth, cynefinoedd a hanes Gwynedd. Anogir gweithwyr sy'n dod i gysylltiad ag ymwelwyr yn rheolaidd i ddod yn Llysgenhadon Gwynedd i wella gwasanaeth a phrofiad cwsmer busnesau. Am fwy o wybodaeth, ac i ddod yn Llysgennad Gwynedd, ewch i:

https://www.ambassador.wales/cy/ambassador-courses/gwynedd-ambassador-course/

## YMGYRCH: #PrynuLleol #CefnogiLleol

Mae ymgyrch Cyngor Gwynedd i annog trigolion ac ymwelwyr i gefnogi ein busnesau lleol yn parhau. Mae pecyn adnoddau

digidol i chi ei ddefnyddio, sy'n cynnwys GIFs a logos, ar gael i'w lawrlwytho ar:

https://bit.ly/3aTVn8Q

Yn ychwanegol i'r adnoddau digidol, mae'r Cyngor wedi cynhyrchu arwyddion a sticeri i fusnesau lleol annibynnol hyrwyddo'r negeseuon Prynu'n Lleol. Mae rhain i'w cael yn rhad ac am ddim drwy yrru e-bost efo'ch cyfeiriad llawn at: prynulleol@gwynedd.llyw.cymru.

Lledaenwch y neges drwy ddilyn a rhannu cynnwys o:

- Facebook
  https://www.facebook.com/prynulleol

- Twitter
  https://twitter.com/prynulleol

- Instagram
  https://www.instagram.com/prynulleol/

Fel rhan o'r ymgyrch, mae siopwyr yn cael eu cyfeirio at gyfeirlyfr o siopau lleol a gwybodaeth lletygarwch ar:

https://bit.ly/prynulleol_2020

I ymuno â'r cyfeirlyfr, cysylltwch â:
twristiaeth@gwynedd.llyw.cymru

---

Mae mwy o wybodaeth defnyddiol i'w gael o:

# Cyngor Gwynedd – Cefnogaeth i Fusnes

https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19
https://twitter.com/BusnesGwynedd

# Rhwydwaith Busnes Gwynedd

https://www.gwyneddbusnes.net/Hafan
https://twitter.com/gwyneddbusnes

# Busnes Cymru

https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/
https://twitter.com/_busnescymru

# Busnes@llandrillomenai

https://www.facebook.com/BusnesatLlandrilloMenai/posts
https://twitter.com/busnesLLM

# FSB Cymru

https://twitter.com/FSB_Wales

# Croeso Cymru

https://twitter.com/croesocymrubus

Cofrestru i dderbyn y newyddion diweddaraf
https://bit.ly/3klWPAU

---

Os nad ydych yn dymuno derbyn yr e-byst hyn bellach, os oes gennych gwestiwn, neu angen cyngor:
E-bostiwch busnes@gwynedd.llyw.cymru